# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Cofnodion (CYP(3)-11-10) : 13 Gorffennaf 2010

Mae modd gweld y cyfarfod hwn ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_13_07_2010&t=0

**Amser: 09.19 - 10.54**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Helen Mary Jones (Cadeirydd), Llanelli
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Tystion

Carol Floris, Voices from Care (Item 2)
Phil Diamond, Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Cefnogi Partneriaethau (Eitem 2)
Helen Gregson-Holmes, Tîm Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy (Eitem 2 - drwy gyfrwng fideo gynadledda)

### Staff y Pwyllgor

Abigail Phillips, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
Sarah Hatherley, Ymchwilydd, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies, a doedd neb yn dirprwyo ar ei rhan. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Debbie Jones o Voices from care.

1.3 Nid oedd buddiannau i'w datgan. Nododd y Cadeirydd, ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol y dylai Aelodau roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw fuddiannau i'w datgan heb i neb ofyn iddynt.

### 2: Dilyn yr Ymchwiliad i wasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru - casglu tystiolaeth

### Papur: CYP(3)-11-10 (p1) - Voices from Care
### Papur: CYP(3)-11-10 (p2) - Cymdeithas Swyddogion Cefnogi Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Voices from Care a Chymdeithas Swyddogion Cefnogi Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc fel rhan o'i ymchwiliad dilynol i wasanaethau eiriolaeth.

#### Cam i'w gymryd

Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglyn â'r materion a godwyd gan y Pwyllgor.

### 3: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 3

3.1 Fe wnaeth y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, i drafod materion yn ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

### 4: Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn :

CYP(3)-11-10 : Papur 4 - Gwybodaeth ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog yn dilyn y cyfarfod ar 15 Mehefin

CYP(3)-11-10 : Papur 5 - Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant mewn Gofal - fersiwn Saesneg clir (Preifat)

CYP(3)-11-10 : Papur 6 - Llythyr gan y Dirprwy Weinidog dros y Gwasanaethau Cymdeithasol

CYP(3)-08-10 : Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2010

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Gorffennaf 2010